



EIP WALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



Sut mae ffermwyr ar Ynys Môn wedi sicrhau lleihad o 60% yn y gwrthfotigau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod wyna

Mae ffermwyr defaid ar Ynys Môn wedi sicrhau lleihad o bron i 60% yn y gwrthfotigau a ddefnyddiwyd yn ystod y tymor wyna dros gyfnod o ddwy flynedd.

Trwy wella maeth, hylendid, ansawdd colostrwm a rheolaeth, mae grŵp o saith ffermwr wedi lleihau nifer yr anifeiliaid sydd wedi cael eu trin gyda gwrthfotigau heb effeithio ar gynhyrchiant na lles anifeiliaid.

Yn ystod y tymor wyna rhwng 2017-19, defnyddiodd y saith fferm 59.8% yn llai o wrthfotigau ar gyfartaledd.

Gyda chynghor milfeddygol a maeth wedi'i ariannu gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop (EIP) yng Nghymru*, dangosodd y ffermwyr bod dull rhagweithiol yn gallu lleihau dibyniaeth ar wrthfotigau yn ystod y tymor wyna yn sylweddol.

Dywed un o'r ffermwyr, Gareth Thomas, Tregynrig, Bae Cemaes, mai un o'r mesurau symlaf ond fwyaf effeithiol a weithredwyd ganddo oedd i ganiatau digon o le i'r mamogiaid fwydo - 15cm y pen ar gyfer porthiant ad-lib a 45cm ar gyfer dwysfwd cyfyngedig.

Gostyngwyd y niferoedd ar gyfer pob cafn o 50 i 40.

Mae'r mamogiaid yn derbyn silwair ad-lib a dwysfwd ddwywaith y dydd, am 8am a 4pm.

Mae Tregynrig yn fferm deuluol sy'n cyflenwi wŷn wedi'u pesgi i gwmni Woodhead Bros ym mis Ebrill a Mai.

Mae Mr Thomas yn cadw diadell o 650 o famogiaid Suffolk x North Country Mule gan fridio gyda hyrddod Charollais neu Texel.

Mae'n diheintio'r siediau ddwywaith y dydd pan fo mamogiaid yn cael eu cadw dan do ar gyfer wyna ym mis Ionawr, gyda bwlch o bythefnos rhwng grwpiau er mwyn lleihau lefelau E.coli - mae'r wŷn sengl yn cael eu grwpio ar wahân i efeiliaid a thripledi.

Ar ôl wyna, mae'r mamogiaid a'r wŷn yn cael eu symud o gorlannau mawr i gorlannau bychain unigol.

Dywed Mr Thomas fod y prosiect EIP wedi dysgu iddo bod angen rhoi mwy o galch o amgylch ardaloedd gwlyb megis cafnau ac ardaloedd bwydo.

Er mwyn cynorthwyo i leihau'r defnydd o wrthfotigau, mae'r gwellt o'r corlannau ar gyfer pob grŵp yn cael ei ddadansoddi ar gyfer bacteria sy'n gallu achosi mastitis, clwy'r cymalau, ysgothi a cheg ddyfrllyd.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

“Mae profi’r gwellt yn y corlannau cyn ac ar ôl wŷna yn hanfodol er mwyn i ni wybod os oes angen i ni wneud unrhyw beth i leihau E.coli,” meddai Mr Thomas.

“Trwy brofi’r gwellt, gallwn gymryd camau’n unol â’r canlyniadau drwy ddiheintio a rhoi calch.”

Mae sicrhau maeth da cyn wŷna yn rheswm arall ar gyfer defnyddio llai o wrthfotigau; ar gyfer y prosiect, roedd ansawdd silwair yn cael ei ddadansoddi ar gyfer deunydd sych, protein, treuliadwyedd, egni metaboladwy, mwynau ac eplesiad.

Mae Tregynrig yn fferm deuluol sy’n cyflenwi wŷn wedi’u pesgi ar gyfer cwmni Woodhead Bros ym mis Ebrill a Mai.

Dywed Mr Thomas fod y prosiect wedi galluogi pob fferm i leihau eu costau wŷna.

“Fe wnaethon ni lwyddo i leihau costau heb effeithio ar iechyd a lles anifeiliaid gan fod ein mamogiaid yn y cyflwr gorau posibl cyn dechrau wŷna, ac rydym ni bellach yn canolbwyntio ein gwariant ar y meysydd lle mae fwyaf ei angen,” meddai.

Bu pob ffermwr yn gweithio’n agos gyda’r ymgynghorydd defaid annibynnol, Kate Phillips, a Karen Wheeler o ADAS er mwyn llunio’r dogn cywir.

Dywed y milfeddyg defaid, Kate Hovers, a fu’n cynghori’r ffermwyr, fod y prosiect wedi dangos yr hyn sy’n bosibl gyda hylendid a maeth da a newidiadau syml i arferion rheoli.

“Gallai defnyddio’r dulliau hyn yn eang effeithio’n sylweddol ar y defnydd o wrthfotigau ar draws y diwydiant defaid,” meddai.

Protocolau wŷna ar y ffermydd a fu’n rhan o’r prosiect

- Corlannau cyn-wŷna yn cael eu glanhau, eu diheintio a’u calchu rhwng pob grŵp o wŷn
- Cafnau dŵr yn cael eu glanhau’n rheolaidd
- Mamogiaid cloff yn cael eu trin yn brydlon a’u rheoli ar wahân i osgoi lledaenu’r haint
- Osgoi ysbaddu a thocio cynffonau wŷn yn ystod yr wythnos gyntaf er mwyn lleihau straen a chlwyfau lle byddai bacteria clwy’r cymalau’n gallu dod i mewn
- Pawb yn gwisgo menig rwber wrth wŷna ac wrth drin wŷn sâl
- Tiwbiau ystumog yn cael eu golchi mewn dŵr cynnes gyda sebon ac yn cael eu diheintio mewn hylif diheintio poteli babanod
- Corlannau wŷna yn cael eu gosod mewn ardal ar wahân i’r prif gorlannau wŷna ar gyfer mamogiaid neu wŷn sâl ac i famogiaid sydd wedi erthyly
- Pan fo colostrwm gwartheg yn cael ei ddefnyddio, mae ansawdd y colostrwm yn cael ei asesu gan ddefnyddio refractometr a dim ond colostrwm 22IgG (Imiwnoglobulin G) neu uwch sy’n cael ei roi i’r wŷn